No.

# CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 15 Ebrill, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr A.M. Collins, J.M. Norman a N.J. Wood.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: L. Newton (Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro) a'r Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cynghorwyr Tref a Chymuned)

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd N.C. Thomas a E. Williams.

## 992 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w weld yn y dyfodol. ”.

## 993 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R.M. Birch (Cadeirydd), G. Bruce, I. Buckley, C. Iannucci-Williams a Ms. R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg)

## 994 COFNODION –

CYNTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

## 995 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 996 CYFLWYNIAD - CWMPAS: CRYFHAU CYMUNEDAU –

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol drwy roi gwybod bod Dr Sarah Evans o Cwmpas wedi cael ei gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor i roi trosolwg o'r gwaith yr oedd Cwmpas wedi bod yn ei wneud gyda'r Cyngor a'i bartneriaid dros y misoedd diwethaf. Rhoddodd Dr. Evans gyflwyniad PowerPoint yn nodi bod Cwmpas yn sefydliad

a oedd yn gweithio i greu economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal lle daeth pobl a'r blaned yn gyntaf.

Wrth gyfeirio at waith Cwmpas gyda'r Cyngor, nodwyd bod ymgysylltu mewnol wedi digwydd, bod gweithdy menter gymdeithasol wedi'i gynnal a bod adolygiad wedi'i gynnal o waith tlodi. Roedd ymgysylltu allanol hefyd ar ffurf gweithio gyda'r Trydydd Sector a mentrau cymdeithasol, Cynghorau Tref a Chymuned, gweithdy Adran 16 a Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol. Prif bwyslais y cyflwyniad oedd canfyddiadau allweddol Adroddiad Archwilio Cymru Cymru gyfan ynghylch mentrau cymdeithasol gyda chanfyddiadau allweddol yn cael eu nodi fel a ganlyn:

- Y casgliad cyffredinol oedd nad oedd Awdurdodau Lleol yn gweithio'n effeithiol gyda mentrau cymdeithasol i sicrhau'r effaith fwyaf;
- gellid defnyddio adnoddau'n well; a
- gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau.

Roedd rhan o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y ffaith nad oedd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol ychwaith yn cyflawni eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 nac yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol yn effeithiol. Canfuwyd hefyd mai cymharol ychydig o swyddogion Awdurdod Lleol oedd yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol i hyrwyddo'r defnydd o fentrau cymdeithasol gydag ychydig iawn yn nodi sut yr oeddent yn gweithio i dyfu'r sector a chyflawni eu cyfrifoldebau Adran 16. Manylwyd ar gasgliadau adroddiad y Trydydd Sector fel a ganlyn:

- Canfuwyd bod trefniadau'r Cyngor yn cefnogi ei ffordd bresennol o weithio gyda'r Trydydd Sector ond y gellid eu cryfhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r berthynas i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Adfer Strategol y Cyngor;
- Roedd y Trydydd Sector yn ystyried gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg fel perthynas gref â staff unigol, roedd staff yn gwrando, roedd staff yn ymateb, roedd staff yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chyfleoedd posibl gyda'r trydydd sector yn eu hystyried fel partner ond gyda'r gallu i gymryd mwy o ran cyn i benderfyniadau gael eu gwneud;
- Cyfeiriad at benderfyniadau cyllido, talu am gyllid, darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu a'r cyfle i lunio gwasanaethau.

Wrth dynnu sylw at y gweithdy Adran 16, dywedodd Dr. Evans fod y cyfarfod wedi'i gynnal yn bersonol ar 9 Ebrill, roedd llawer o bobl yno gyda chyfeiriadau at enghreifftiau o atebion wedi'u cyd-gynhyrchu, a'r Trydydd Sector yn rhoi gwybod ei fod am arloesi a datblygu gwasanaethau newydd gyda'i gilydd. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys rôl fforymau Adran 16, caffael, mesurau effaith datblygu a gefnogir ac amlygu effeithiau lles gwerth cymdeithasol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gofynnodd yr Is-gadeirydd (yn y Gadair) beth oedd y camau nesaf o ran y gweithdy Adran 16, gan fod â diddordeb ym marn Dr Evans a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ar yr hyn a allai fod yn dal y Cyngor yn ôl. Hefyd, cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at yr awydd i symud i ffordd newydd o weithio. Mewn ymateb, dywedodd Dr. Evans fod y Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu a'i dîm yn awyddus i weithio gyda'r sector drwy'r Fforwm Adran 16

newydd i ystyried sut yr oeddent yn gweithio gyda'i gilydd. Dywedodd Rheolwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad fod deall y prosesau a'r gofynion yn allweddol yn ogystal â chydnabod ei fod yn ymwneud â gweithio gyda'r holl sefydliadau ac nid y Cyngor yn arwain ar faterion yn unig. Wrth gydnabod y byddai Compact y Sector Gwirfoddol yn cael ei adolygu/ei adnewyddu, awgrymwyd y dylid cynnal trafodaethau pellach yn hyn o beth ar ôl y cyfarfod a chyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gwnaeth y Cynghorydd Norman sylw ar nifer y swyddi gwag ar y Pwyllgor o'r Trydydd Sector, gydag awgrym bod hyn hefyd yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen.

Ar ôl ystyried y cyflwyniad,

CYTUNWYD – BOD y cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Cyngor, bod diweddariadau pellach ar waith y gweithdai Adran 16 a’r adolygiad o Gompact y Sector Gwirfoddol yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

997 CYFLWYNIAD - TAI: GWEITHIO GYDA'R TRYDYDD SECTOR –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Tai Cyhoeddus ei dîm gan ddweud y byddai'r cyflwyniad i'r Pwyllgor yn cynnwys trosolwg o waith gwasanaethau gydag eraill i ddarparu gwasanaethau. Rhoddodd y Cydlynydd Cefnogi Pobl wybod i'r Pwyllgor am y cymorth tai a oedd yn darparu gwasanaethau hyblyg a oedd yn galluogi pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol. Er enghraifft, y mathau o gymorth oedd:

- Cymorth i ymgartrefu a chynnal cartrefi,
- Cymorth gyda chyllidebu / dyledion ac ati,
- Cymorth i ddatblygu sgiliau byw ymarferol,
- Cyfeirio a chysylltiadau wedi’u cefnogi gydag asiantaethau,
- Cymorth gyda chwilio am waith / hyfforddiant / gwirfoddoli,
- Cyngor ar faterion tai.

Rhoddodd y swyddog drosolwg manwl i'r Pwyllgor o bob math o gymorth a'r gwasanaethau arbenigol a oedd yn cael eu darparu.

Nodwyd bod cyfanswm cyllideb y Grant Cymorth Tai ar gyfer 2023/24 yn £4.7m. Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gafodd gymorth yn ystod y 12 mis diwethaf oedd 1,942. Adroddwyd bod nifer y defnyddwyr larwm brys yn 2,187; roedd 3,365 o ymholiadau i'r Siop Un Stop wedi'u gwneud ac adroddwyd bod cyfanswm y defnyddwyr gwasanaeth mewn llety â chymorth yn 91. Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o ddarparwyr a oedd yn cynnwys, er enghraifft, Llamau, Hafod, Pobl ac ati, gyda'r holl gymorth yn cael ei ddefnyddio drwy'r Porth Cefnogi Pobl.

Dechreuodd Uwch Reolwr Cymdogaeth Rheoli Tai a Chyfoethogi Cymunedau wrth gyflwyno ei gwasanaeth drwy ddweud bod timau Rheoli Tai a Chyfoethogi Cymunedau Cartrefi’r Fro yn gwneud gwaith rheoli tai, gydag enghreifftiau o rolau

o fewn y tîm yn cynnwys swyddogion incwm, swyddogion cyngor ariannol, swyddogion datblygu cymunedol a chyfranogiad, rheolwyr a chynorthwywyr tai, swyddogion gwirfoddoli a chynhwysiant digidol. Roedd yn bwysig nodi, er mwyn darparu'r holl wasanaethau, fod angen partneriaeth waith gyda sefydliadau mewnol ac allanol a'r Trydydd Sector.

Hefyd, roedd gwasanaethau Rheoli Tai yn helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau, derbyn cymorth, ceisio mewnbwn asiantaeth arbenigol ac roeddent yn darparu gwasanaeth cydgysylltiedig. Roedd gweithio yn y gymuned i wella cymdogaethau hefyd yn elfen allweddol o waith y gwasanaeth ac unwaith eto cyfeiriodd y cyflwyniad at nifer y sefydliadau yr oedd y Gwasanaeth Tai yn gweithio gyda nhw.

Wrth ystyried y cyflwyniad, gofynnodd yr Is-gadeirydd am y monitro rhwng cyfoedion a oedd yn cael ei wneud gan nodi, yn ei barn hi, ei fod yn brofiad gwerthfawr da y gellid ei rannu. Wrth gydnabod nifer y sefydliadau yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda nhw, nododd hefyd fod lle pellach i weithio gyda'r Trydydd Sector. Cytunodd y swyddog ei bod yn bwysig codi'r proffil a gweithio gyda'r Trydydd Sector i ymgysylltu â chymaint o wahanol brosiectau â phosibl.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ei fod bellach yn gyfle da i wneud i'r Compact deimlo'n real ac ystyried yr holl sylwadau er mwyn i'r Rheolwr Gweithredol a fe ei hun wneud darn arall o waith yn dilyn yr adolygiad o'r Compact.

Roedd y cynrychiolydd ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned hefyd yn awyddus i ymgysylltu â chymunedau gwledig a gofynnodd a oedd unrhyw feysydd pellach yn benodol gweithio ar y cyd â darparwyr eraill y gellid ehangu arnynt a'u hystyried wrth symud ymlaen ar gyfer cymuned y Wig yn ogystal â chymunedau gwledig eraill. Rhoddodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Tai Cyhoeddus, wrth gydnabod bod nifer o eiddo'r Cyngor yn ardal y Wig, ychydig o enghreifftiau o waith a oedd yn cael ei wneud gan gydnabod y gallai fod cymorth pellach a sgyrsiau pellach i'w cael ac anogodd y cynrychiolydd Cynghorwyr i gysylltu er mwyn cynnal trafodaethau pellach.

Wrth gydnabod y ffaith bod y Compact yn debygol o gael ei adolygu dros yr ychydig fisoedd nesaf, gan ystyried y sgyrsiau yn y cyfarfod a derbyn y byddai'r Compact ar waith ar draws y Sir, gofynnodd yr Is-gadeirydd i bawb a oedd yn bresennol ystyried pa gyfleoedd a allai fod ar gael a gofynnodd iddynt anfon pob awgrym at y swyddogion perthnasol i'w ystyried..

Wedi hynny,

CYTUNWYD – BOD y cyflwyniad yn cael ei anfon ymlaen at holl Aelodau'r Cyngor a'r Trydydd Sector er gwybodaeth iddynt gyda sgyrsiau dilynol i'w cynnal fel yr adlewyrchwyd yn y trafodaethau yn y cyfarfod.

998 DEWCH I SIARAD AM FYWYD YN Y FRO: ADRODDIAD AROLWG AC YMGYSYLLTIAD PELLACH (CYF) -

Roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r adroddiad at Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn ei gyfarfod ar 11 Ebrill 2024. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion y cyfarfod hwnnw ar gael eto, gyda'r Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi gwybod ar lafar fodd bynnag fod argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet gyda'r Sector Gwirfoddol i gyfeirio unrhyw farn yn ôl at y Cabinet i'w hystyried.

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfathrebu Corfforaethol, Cyfranogiad, Cydraddoldeb a Datblygu Cyfarwyddiaethau yr arolwg a hefyd rhoddodd gyflwyniad PowerPoint byr o'r canlyniadau hyd yn hyn. Nodwyd bod yr arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro wedi rhedeg o 22 Awst i 18 Rhagfyr 2023. Roedd yr arolwg wedi cael ei hyrwyddo'n eang i drigolion Bro Morgannwg trwy amrywiaeth o sianeli a dulliau, gan gynnwys datganiadau i'r cyfryngau a hyrwyddiadau e-bost ac ati. Roedd y canlyniadau wedi cael eu trefnu mewn nifer o gategorïau gyda chyfanswm o 4,009 o aelodau o'r cyhoedd wedi ymateb i'r arolwg. Nodwyd bod 60% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar Fro Morgannwg fel lle i fyw gydag 80% o ymatebwyr yr arolwg yn nodi y byddent yn argymell Bro Morgannwg fel lle i fyw.

O ran blaenoriaethau gwasanaeth, sgoriodd yr ymatebwyr y canlynol fel y pwysicaf i'r rhai lleiaf pwysig iddynt:

1. Cael mynediad hawdd at wasanaethau gofal a gofal iechyd pan fydd eu hangen arnaf i neu fy nheulu.
2. Byw mewn cymdogaeth sy'n lân ac yn daclus.
3. Prynu neu rentu cartref o ansawdd da.
4. Mynediad i gasgliadau ailgylchu a gwastraff rheolaidd.
5. Mwynhau'r amgylchedd naturiol.
6. Teithio gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus sy’n cael eu cynnal a’u cadw’n dda.
7. Siopa am fwyd ac eitemau bob dydd yn fy ardal leol.
8. Mynediad i feithrinfeydd ac ysgolion lleol o ansawdd da i'm plant neu’r rhai yn fy nghymuned eu mynychu.
9. Pethau i'm cadw'n heini ac yn iach am ddim neu am bris y gallaf ei fforddio.
10. Cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol i helpu i ennill sgiliau newydd.
11. Ymgysylltu â digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth am ddim neu am bris y gallaf ei fforddio.

O ran canran yr ymatebwyr a gytunodd yn gryf neu ychydig fod y gwasanaethau a ddarperir gan Fro Morgannwg o ansawdd uchel, y ffigwr oedd 29.3%, gyda 25.5% yn dweud bod Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu er budd trigolion lleol. Dywedodd mwy o’r ymatebwyr eu bod yn anghytuno’n gryf neu ychydig fod y gwasanaethau a ddarperir gan Fro Morgannwg o ansawdd uchel, gyda 51.8% yn dweud bod Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu er budd trigolion lleol.

Wrth gyfeirio at y camau nesaf, dywedodd y swyddog fod adroddiad canlyniadau lefel uchel gan Data Cymru i'w adrodd i'r Cabinet, y Pwyllgor a phartneriaid strategol ac roedd ymgysylltu pellach â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd adborth i ymatebwyr a dinasyddion hefyd ar y gweill gyda'r mecanwaith adrodd a'r ymgysylltu pellach i'w hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025-2030 yn ogystal ag adolygu'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, ac ailflaenoriaethu camau gweithredu o fewn 3 mis.

Roedd yr Is-gadeirydd, wrth gydnabod bod canlyniadau'r arolwg yn gymysg, yn ei barn hi, gyda sylwadau nad oeddent yn syndod mewn rhai ffyrdd, yn falch o nodi bod ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cael ei ystyried fel prif flaenoriaeth.

Dywedodd cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned ei fod wedi'i synnu gan swm y wybodaeth yn yr arolwg ynghyd â'r manylion a gynhwyswyd yn yr adroddiad ac awgrymodd fod Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ymhellach ac yn rhoi unrhyw sylwadau i'r Rheolwr Gweithredol i gynorthwyo cynnydd pellach.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol hefyd ei fod yn fwy na pharod i ddod i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i roi gwybod am gynnydd gan ei fod yn croesawu adborth a sylwadau ar yr adroddiad.

Croesawodd yr Is-gadeirydd y gwahoddiad agored i'r Pwyllgor dderbyn diweddariadau pellach ac yn arbennig roedd yn awyddus i weld sut olwg fyddai ar ymgysylltu yn y dyfodol a'i effaith ar gymunedau, a gofynnodd a ellid ailadrodd yr arolwg. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y dull gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu gan Data Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fodel safonol i holl gynghorau Cymru ond y gellid ei redeg eto yn 2025.

Croesawodd yr Is-gadeirydd hefyd y camau yr oedd y Cyngor yn eu cymryd i gryfhau cyfranogiad a'r pwysigrwydd i Aelodau'r Pwyllgor a'r Trydydd Sector sicrhau bod y gwaith yn cael ei hysbysebu mor eang â phosibl, gan gydnabod y byddai diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Wedi hynny,

CYTUNWYD - BOD yr adroddiad yn cael ei nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried yr adroddiad, y cyflwyniad a'r sylwadau yn y cyfarfod.